

# Gwybodaeth Monitro Cydraddoldeb i Ymgeiswyr am Swydd

Mae'n ofynnol yn ôl deddfwriaeth i gyflogwyr gasglu gwybodaeth am gyflogeion o ran eu hoed, anabledd, ailbennu rhywedd, hil, crefydd neu gred, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol a phriodas neu bartneriaeth sifil.

Mae'r term "monitro cydraddoldeb" yn disgrifio'r broses a ddefnyddir i gasglu, storio a dadansoddi'r wybodaeth hon, a chaiff ei defnyddio i wella'n gwasanaethau, ein polisiau a'n gweithdrefnau. Mae monitro'r data hwn yn help inni ddeall a yw'n polisiau a'n harferion recriwtio a dethol yn deg a gwrthrychol i bawb a'n bod yn denu ceisiadau o blith yr ystod ehangaf o ymgeiswyr. Yn flynyddol, bydd y Cyngor yn cyhoeddi, ar y rhynggrwyd, grynodedd o'r data monitro recriwtio yr ydym wedi'i gasglu.

Mae gwybodaeth monitro cydraddoldeb yn help inni ddeall y mathau o bobl sy'n gwneud cais am swyddi a beth sy'n digwydd iddynt yn y broses ddethol. Fel awdurdod cyhoeddus mae'n ofynnol i Gyngor Wrecsam gymryd camau i hyrwyddo cyfle cyfartal ac atal gwahaniaethu. Rydym yn gwerthfawrogi amrywiaeth ac rydym am gynnal gweithlu sydd ag ystod eang o sgiliau, cymwysterau a phrofiadau.

Byddwn yn gofyn i bawb sy'n gwneud cais am swydd am yr un wybodaeth monitro cydraddoldeb. Nid yw'r wybodaeth hon yn rhan o'ch cais mewn unrhyw ffordd a chaiff ei thynnu oddi wrth eich ffurflen gais cyn iddi gael ei chyflwyno i'r cam llunio rhestr fer. Caiff pob ymgeisydd ei ystyried ar ei haeddiant yn erbyn manyldeb y person. Os ydych yn llwyddiannus, ac yn dod yn rhan o weithlu'r Cyngor, bydd gofyn ichi lenwi ffurflen monitro cydraddoldeb arall. Caiff y wybodaeth ei chwmpasu gan reolau a rheoliadau Deddf Diogelu Data 1998.

**Nid ydym byth yn defnyddio'r wybodaeth hon i adnabod unigolion ac at ddibenion ystadegol yn unig yr ydym yn ei defnyddio.**

**Cysylltwch â'r Ganolfan Gwasanaeth Adnoddau Dynol i gael rhagor o wybodaeth a chydag ymholiadau. Ffoniwch 01978 292012 neu anfonwch e-bost at: [hrservicecentre@wrexham.gov.uk](mailto:hrservicecentre@wrexham.gov.uk) neu ewch i [www.wrecsam.gov.uk/swyddi](http://www.wrecsam.gov.uk/swyddi)**

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn gweithredu Cynllun Gwarant Cyfweiliad i ymgeiswyr ag anableddau (Tic Dwbl). Mae hyn yn golygu y bydd unrhyw ymgeisydd am swydd, sydd ag anabledd ac sy'n bodloni gofynion hanfodol y swydd fel y'u nodwyd ym manyleb y person, yn cael ei wahodd i'r broses ddethol/cyfweld.

Caiff pob ymgeisydd ei farnu ar ei allu, fel y'i dangosir mewn unrhyw brofion neu ymarferiadau dethol ac yn y cyfweiliad, nid ar sail unrhyw gyfyngiadau y credir y mae'r anabledd yn eu hachosi. Gwneir pob penodiad ar sail haeddiant, a bydd y Cyngor yn gwneud unrhyw addasiadau rhesymol a all yn y gweithle i liniaru effeithiau unrhyw anabledd.

Llenwch y ffurflen isod a dychwelwch hi os gwelwch yn dda gyda'ch ffurflen gais. Drwy lenwi'r ffurflen hon rydych yn cydsynio i'r wybodaeth gael ei defnyddio at ddibenion monitro cydraddoldeb. Bydd y wybodaeth yn cael ei chadw'n gyfrinachol.

**Mae'r Cyngor yn gofyn i bob un sy'n ymgeisio am swydd lenwi ffurflen monitro cydraddoldeb gyfrinachol.**



## Gwybodaeth Gyffredinol

### Llenwch y blychau priodol

Teitl y Swydd Wag

Cyfeirnod y Swydd Wag

Ble gwelsoch chi'r swydd yn cael ei hysbysebu?

Rhif Yswiriant Gwladol

Cod Post

Ydych chi'n ymgeisydd mewnol?

Rhif Cyflogres

(ymgeisydd mewnol yn unig)

## Monitro Cydraddoldeb

Ticiwch y blychau sy'n eich disgrifio chi orau am bob cwestiwn isod.

### 1. Eich oed

Beth yw'ch dyddiad geni? (Nodwch)

DD/MM/BBBB

Well gen i beidio dweud

### 2. Eich rhyw

Ydych chi'n?

Benyw

Gwryw

Rhyngrywiol

Well gen i beidio dweud

### 3. Eich cyfeiriadedd rhywiol

Pa un o'r opsiynau canlynol sy'n disgrifio orau y ffordd rydych chi'n meddwl amdanoch eich hun?

Heterorywiol

Dyn hoyw

Dynes hoyw / lesbian

Deurywiol

Arall

Well gen i beidio dweud

### 4. Ailbennu rhywedd

Ydych chi erioed wedi ystyried eich hun yn drawsrywiol?

Ydw

Nac ydw

Well gen i beidio dweud

### 5. Eich priodas neu bartneriaeth sifil

Beth yw'ch statws o ran priodas neu bartneriaeth sifil?

Priod

Partneriaeth Sifil

Sengl

Well gen i beidio dweud

### 6. Eich iechyd

Oes gennych chi gyflwr/gyflyrau iechyd corfforol neu feddyliol neu salwch yn para neu y mae disgwyl iddo/iddynt bara 12 mis neu fwy?

Oes

Nac oes

Well gen i beidio dweud

**6.(a) Os ydych wedi ateb oes i gwestiwn 6, nodwch y math o nam sy'n berthnasol ichi:**

Nam corfforol

Anabledd dysgu

Nam ar y synhwyrau

Salwch neu gyflwr iechyd tymor hir

Cyflwr iechyd meddwl

Unrhyw nam arall

**6.(b) Os ydych wedi ateb oes i gwestiwn 6, nodwch a yw'ch cyflwr/cyflyrau neu'ch salwch yn lleihau'ch gallu i gyflawni gweithgareddau o ddydd i ddydd?**

Ydy, yn fawr

Ydy, ychydig

Ddim o gwbl

Well gen i beidio dweud

**7. Eich hunaniaeth genedlaethol**

**Sut bydech chi'n disgrifio'ch hunaniaeth genedlaethol orau?**

Cymro/Cymraes

Sais/Saesnes

Albanwr/Albanwraig

Gwyddel/es o Ogledd Iwerddon

Prydeiniwr/Prydeinwraig

Well gen i beidio dweud

Arall (disgrifiwch)

**8. Eich grŵp ethnig - Ticiwch y blwch sy'n disgrifio'ch ethnigrwydd orau**

**Gwyn**

Prydeinig/Seisnig/Gwyddelig (o Ogledd Iwerddon)/Albanaidd/ Cymreig

Gwyddelig

Sipsi neu Deithiwr Gwyddelig

Unrhyw gefndir gwyn arall (disgrifiwch)

**Grŵp ethnig Cymysg/Lluosog**

Du a Gwyn Caribiaidd

Du a Gwyn Affricanaidd

Gwyn ac Asiaidd

Unrhyw gefndir ethnig Cymysg/Lluosog arall (disgrifiwch)

**Asiaidd/ Asiaidd Prydeinig**

Indiaidd

Pacistanaidd

Bangladeshaidd

Unrhyw gefndir Asiaidd arall (disgrifiwch)

**Du/Affricanaidd/Caribiaidd/Du Prydeinig**

Affricanaidd

Caribiaidd

Unrhyw gefndir Du/Affricanaidd/Caribiaidd arall (disgrifiwch)

**Grŵp ethnig arall**

Arab

Unrhyw gefndir ethnig arall (disgrifiwch)

**Well gen i beidio dweud**

## 9. Eich crefydd neu gred

Ticiwch y blwch sy'n disgrifio'ch crefydd neu gred orau

- |   |   |
|---|---|
| <input type="checkbox"/> Dim crefydd                                    | <input type="checkbox"/> Cristnogaeth (pob enwad) |
| <input type="checkbox"/> Bwdhaeth                                       | <input type="checkbox"/> Sikhiaeth                |
| <input type="checkbox"/> Hindŵaeth                                      | <input type="checkbox"/> Islam                    |
| <input type="checkbox"/> Iddewiaeth                                     | <input type="checkbox"/> Well gen i beidio dweud  |
| <input type="checkbox"/> Unrhyw grefydd neu gred arall<br>(disgrifiwch) |   |

## 10. Beichiogrwydd a Mamolaeth

Ydych chi'n feichiog ar hyn o bryd neu ydych chi wedi bod yn feichiog yn y flwyddyn diwethaf?

- |  |                                  |
|--|----------------------------------|
| <input type="checkbox"/> Ydw                     | <input type="checkbox"/> Nac ydw |
| <input type="checkbox"/> Well gen i beidio dweud |                                  |

## 11. Ydych chi wedi bod ar absenoldeb mamolaeth yn y flwyddyn diwethaf?

- |  |                                  |
|--|----------------------------------|
| <input type="checkbox"/> Ydw                     | <input type="checkbox"/> Nac ydw |
| <input type="checkbox"/> Well gen i beidio dweud |                                  |

## 12. Eich dewis iaith

Ticiwch flwch isod.

- |   |  |
|---|--|
| <input type="checkbox"/> Saesneg                        | <input type="checkbox"/> Cymraeg                 |
| <input type="checkbox"/> Iaith Arwyddion Prydain        | <input type="checkbox"/> Well gen i beidio dweud |
| <input type="checkbox"/> Unrhyw iaith arall (nodwch hi) |  |

## 13. Pa mor rhugl ydych chi yn y Gymraeg. Rhowch y 'rhif lefel' priodol am bob un o'r tri maes sgil:

0 = Dim/Mynediad

1 = Ychydig/Sylfaen

2 = Canolradd/Rhywfaint

3 = Uwch/Canolig

4 = Cwbl fedrus

5 = Cwbl fedrus (technegol)

- |   |  |
|---|--|
| <input type="checkbox"/> Gwranddo/Siarad* | <input type="checkbox"/> Darllen/Deall*          |
| <input type="checkbox"/> Ysgrifennu*      | <input type="checkbox"/> Well gen i beidio dweud |

\*neu ddull addas amgen o gyfathrebu os yw'n berthnasol

Cyfeiriwch at y Siart Asesu Sgiliau yn y Gymraeg i gael rhagor o fanylion am y lefelau (wedi'i hamgáu).

## 14. Gofalwyr

Ydych chi'n darparu gofal ar sail sylweddol a rheolaidd i aelod o'r teulu neu ffrind y mae angen gofal / help / cefnogaeth arno/arni oherwydd salwch neu anabledd neu am ei fod/ei bod yn eiddil?

- |  |                                  |
|--|----------------------------------|
| <input type="checkbox"/> Ydw                     | <input type="checkbox"/> Nac ydw |
| <input type="checkbox"/> Well gen i beidio dweud |                                  |

Cysylltwch â'r Ganolfan Gwasanaeth Adnoddau  
Dynol ar rif ffôn 01978 292012 os oes angen  
y ffurflen hon arnoch mewn ffurf amgen.



**Mae'r Cyngor yn gyflogwr ystyriol o Ofalwyr**

